**Chwalu ffiniau profiadau technoleg ymgolli**

Mae gan dechnolegau ymgolli'r potensial i newid y ffordd rydyn ni'n gweithio, byw a chyfathrebu. Maen nhw'n trawsnewid y diwydiannau celfyddydol a chreadigol ac mae ganddynt gymwysiadau ar draws llawer o sectorau eraill yn ymestyn o ofal iechyd i weithgynhyrchu.

Ar gyfer sefydliadau diwylliannol a chreadigol safon fyd-eang y DU, mae'r technolegau hyn yn gyfle i addysgu, ymgysylltu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd drwy brofiadau ymgolli newydd arloesol, a dulliau newydd o adrodd straeon a rhyngweithio. Er mwyn i'r sefydliadau hyn fanteisio'n llawn ar y cyfle hwn, bydd angen y sgiliau a'r gefnogaeth arnynt i droi eu syniadau'n brofiadau ymgolli hyfyw.

Mewn cydweithrediad arloesol newydd, mae AHRC, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cydweithio i gefnogi mabwysiad a gweithrediad technolegau ymgolli creadigol o fewn y sector celfyddydau a diwylliant.

Bydd y rhaglen XRtistiaid £6m, tair-blynedd hon yn cefnogi sector celfyddydau a diwylliant y DU i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth wrth gynhyrchu cynnwys ymgolli drwy bibell o gyfleoedd ariannu i gefnogi datblygiad prosiectau gan sefydliadau ac unigolion ar wahanol gamau o'u taith ymgolli.

Mae ein profiad ar y cyd â rhaglenni fel CreativeXR a'r Clystyrau Diwydiannau Creadigol wedi dangos bod cyfnewid gwybodaeth a mentora rhwng y sectorau academaidd, diwydiannau creadigol a chelfyddydau a diwylliant yn llwybr sydd wedi'i brofi i gael effaith gadarnhaol yn y gofod hwn. Rydym yn gwahodd ceisiadau gan gonsortia sy'n cynnwys Sefydliadau Ymchwil Annibynnol, Prifysgolion, sefydliadau diwylliannol a busnesau creadigol a all gyda'i gilydd gyflawni'r gweithgareddau a'r canlyniadau i sicrhau bod yr arolwg ar gyfer llwyddiant y rhaglen XRtistiaid y gorau posib.

Er mwyn hyrwyddo a dathlu'r prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen, bydd y consortiwm yn cyflwyno digwyddiad arddangos diwydiant blynyddol, gan helpu i gefnogi datblygiad parhaol a dosbarthiad y gwaith a gynhyrchwyd. Bydd cyfle hefyd i'r consortiwm XRtistiaid llwyddiannus gynnal ymchwil i gynyddu potensial y prosiectau y maent yn eu hariannu, boed drwy archwilio modelau busnes a dosbarthu newydd neu drwy ddarparu mewnwelediadau cynulleidfa defnyddiol i brosiectau a'r sector ehangach.

Mae ein sefydliadau diwylliannol, yn ogystal â'r cynulleidfaoedd y maent yn darparu ar eu cyfer, wedi eu lledaenu ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ac mae ein rhaglen yn adlewyrchu'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud ar draws y DU. Dylai manteision technoleg ymgolli fod yn gyfle i bawb, a dyna pam y bydd gan y consortiwm llwyddiannus bartneriaid a phresenoldeb ym mhob un o wledydd y DU. Un o brif amcanion XRtistiaid yw sicrhau bod y rhaglen yn galluogi amrywiaeth a chydraddoldeb cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o wneud a mwynhau cynyrchiadau ymgolli creadigol gan bobl o bob cefndir ac ar draws pob rhan o'r DU.

Meddai **Cadeirydd Gweithredol AHRC, yr Athro Christopher Smith**: "Mae technoleg greadigol yn un o gynhwysion hanfodol sector diwydiannau creadigol llewyrchus y DU ac yn newid drwy'r amser.

"Mae AHRC wedi ymrwymo i sicrhau bod y dechnoleg hon â chyrraedd eang a dwfn ar draws y DU, ac rydym wrth ein bodd i bartneru â Chynghorau Celfyddydau'r pedair gwlad i gefnogi Teyrnas Unedig greadigol.

"Bydd XRtistiaid yn adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol i ddatgloi arloesedd a thwf economaidd pellach a bydd yn dod â phŵer technoleg ymgolli i gynulleidfaoedd a phartneriaid newydd."

Meddai **Darren Henley, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Lloegr**: "Rydyn ni'n gwybod y gall pethau gwych ddigwydd pan fyddwn ni'n dod ag artistiaid a phobl greadigol at ei gilydd gyda thechnolegwyr ac ymchwilwyr.

"Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at lansio XRtistiaid, a fydd yn tynnu ar y cyfoeth o dalent greadigol ar draws ein celfyddydau perfformio, orielau, amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol eraill i ddatgloi syniadau a cheisiadau newydd ar gyfer technoleg ymgolli, tra'n datblygu sgiliau yn y technolegau ymddangosol pwerus hyn ar draws y sector diwylliannol."

Meddai **Dafydd Rhys, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru**: "Mae'n bwysig ein bod ni fel cyllidwyr yn cefnogi artistiaid a phobl greadigol er mwyn archwilio beth all 'diweddaraf' ei olygu a sut mae'n cysylltu â chynulleidfaoedd nawr ac yn y dyfodol.

"Mae gwneud hyn mewn partneriaeth â chydweithwyr yng ngwledydd eraill y DU yn creu cyfleoedd unigryw a chynhwysol i rannu dysgu, i gydweithio ac i gynyddu posibiliadau technoleg greadigol er mwyn rhannu profiadau ac adrodd straeon yn effeithiol."

Meddai **Karly Greene, Cyfarwyddwraig Datblygu Strategol a Phartneriaethau, Cyngor Celfyddydau GI**: "Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn falch iawn o fod yn rhan o'r fenter hon ar gyfer y celfyddydau a diwydiannau creadigol ledled y DU.

"Gyda'n cyllid gan y Loteri Genedlaethol ym mlwyddyn un, bydd y rhaglen 3-mlynedd bwysig hon yn rhoi hwb i bobl greadigol sy'n gobeithio datblygu syniadau, hyfforddiant a sgiliau. Bydd y rhai sy'n elwa o'r arian hwn yn gallu rhannu eu dysg a'u datblygiad prosiect gydag eraill drwy blatfform arddangos, a dyna'n union yw'r ethos y mae'r Cyngor Celfyddydau yn ei gefnogi."

Meddai **Morgan Petrie, Rheolwr Diwydiannau Creadigol Creative Scotland**: "Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda'n partneriaid yn y DU i gefnogi mabwysiadu a gweithredu technolegau ymgolli yn y diwydiannau creadigol yn yr Alban.

"Rydym yn rhagweld y bydd y rhaglen XRtistiaid yn rhoi cyfle i fusnesau creadigol a sefydliadau celfyddydol perfformio i arbrofi, i ddatblygu ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd, ac o bosib i gynhyrchu refeniw ychwanegol."